

# City & Guilds Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant: Canllaw Tystiolaeth Tyst Arbenigol

Fersiwn Medi 2020 Fersiwn 1.0



# Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Beth yw Tyst Arbenigol?	3
3	Pwy all fod yn Dyst Arbenigol?	4
4	Cwmpas rôl Tystiolaeth Tyst Arbenigol yn y broses asesu	5
5	Sut i ddod yn Dyst Arbenigol a chefnogaeth gysylltiedig	5
6	Ystyriaethau arfer gorau	6
7	Technoleg o bell	7
8	Barnu tystiolaeth a ddarparwyd gan Dyst Arbenigol	7
9	Sicrhau Ansawdd	8
10	Crynodeb	9
	Atodiad 1 - Enghraifft o'r Gofynion i fod yn Dyst Arbenigol	10
	Atodiad 2 - Enghraifft o Ffurflen Tystiolaeth Tyst Arbenigol	12

# 1 Cyflwyniad

Pwrpas y canllaw hwn yw cefnogi Aseswyr/Hyfforddwyr newydd a phresennol i ddeall a defnyddio 'Tystion Arbenigol' a all gyfrannu at ddarparu tystiolaeth o berfformiad i ddysgwyr sy'n dilyn cymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd. Er bod y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar gymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, mae llawer o sectorau eraill lle mae'r defnydd o Dystion Arbenigol wedi cyfrannu'n werthfawr at y broses asesu. Er enghraifft yn y sectorau Lletygarwch ac Arlwyyo, Gweinyddu Busnes neu Wallt a Harddwch. Gall defnyddio Tystion Arbenigol gefnogi Aseswyr/Hyfforddwyr gyda'u harfer asesu ac wrth iddynt wneud penderfyniadau asesu i gadarnhau cymhwysedd galwedigaethol dysgwyr.



Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys dwy ffurflen enghreifftiol sydd wedi'u llunio i gefnogi'r defnydd effeithiol o Dystion Arbenigol a'u tystiolaeth yn y broses asesu. Cyfeirir at y rhain yn nes ymlaen a gellir eu gweld tua diwedd y canllaw hwn yn yr adran atodiadau.

## 2 Beth yw Tyst Arbenigol?

Mae Tyst Arbenigol yn unigolyn sydd â gwybodaeth a phrofiad cyfredol mewn maes ymarfer galwedigaethol ac sy'n gymwys yn alwedigaethol yn eu maes arbenigedd. Yn aml, bydd tystion arbenigol hefyd yn gyfarwydd â gofynion y cymhwyster sy'n cael ei asesu. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yn gweithio ochr yn ochr â dysgwr mewn lleoliad cyflogaeth naill ai fel ei oruchwyliwr neu reolwr/dirprwy reolwr neu uwch gydweithiwr profiadol arall.

Mae'n bwysig bod pawb yn y broses o asesu'r cymhwyster yn deall, yn wahanol i Aseswr/Hyfforddwr y dysgwr, **nad** yw'r Tyst Arbenigol yn gwneud penderfyniadau asesu mewn perthynas â chymhwyster y dysgwr. Fodd bynnag, maent yn darparu adroddiad manwl neu 'dystiolaeth' o allu'r dysgwr i gwblhau gweithgareddau seiliedig ar waith sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â gofynion sgiliau ei rôl, neu'n fwy penodol, gofynion yr uned sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn ei gymhwyster.

Fel arfer, y Tyst Arbenigol sy'n ysgrifennu'r dystiolaeth ond mewn rhai achosion gall y dysgwr ei hun ei hysgrifennu. Os yw'r dysgwr ei hun yn ysgrifennu'r dystiolaeth, rhaid i'r Tyst Arbenigol a benodwyd ei chadarnhau a'i llofnodi. Rôl y Tyst Arbenigol yw dilysu'r dystiolaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn gadarn, yn ddilys a'i bod yn bodloni gofynion y cymhwyster. Rhaid i'r Aseswr/Hyfforddwr wirio dilysrwydd a dibynadwyedd y math hwn o dystiolaeth hefyd. Gwneir hyn fel arfer gan yr Aseswr/Hyfforddwr sy'n trafod perfformiad y dysgwr gyda'r Tyst Arbenigol ac yn cofnodi crynodeb o'r drafodaeth hon ynghyd â'r dystiolaeth. Rhaid i'r Tyst Arbenigol a'r Aseswr/Hyfforddwr lofnodi a dyddio'r wybodaeth ychwanegol hon.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd gan ddysgwr un neu fwy o Dystion Arbenigol sy'n darparu tystiolaeth seiliedig ar gymhwysedd ar agweddau penodol ar ei ymarfer gwaith. Fodd bynnag, yr Aseswr/Hyfforddwr sydd BOB AMSER yn gyfrifol am farnu dilysrwydd tystiolaeth Tyst Arbenigol yn derfynol a dim ond yn unol â gofynion y Sefydliad/Corff Dyfarnu y gellir defnyddio tystiolaeth o'r fath. Bydd hyn yn cael ei drafod yn fwy manwl yn nes ymlaen yn y canllaw hwn.

Yn olaf, ni ddylai cynnwys unrhyw dystiolaeth Tyst Arbenigol beryglu cyfrinachedd unrhyw unigolyn o dan unrhyw amgylchiadau. Rhaid cadw at ddeddfwriaeth diogelu data a pholisïau cyfrinachedd bob amser a disgwylir y byddai'r Aseswr/Hyfforddwr wedi esbonio hyn i'r dysgwr a'r Tyst Arbenigol ar ddechrau'r broses o asesu'r dysgwr.



### 3 Pwy all fod yn Dyst Arbenigol?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y Corff/Sefydliad Dyfarnu yn amlinellu'n glir y gofynion i fod yn Dyst Arbenigol yn ei ddeunyddiau cefnogi cymwysterau. Mewn rhai achosion, caiff hyn ei lywio naill ai gan Reoleiddiwr cymwysterau, Cyngor Sgiliau Sector neu gorff proffesiynol/cyflogwr arall. Disgwylir i Aseswyr/Hyfforddwyr sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion hyn wrth ystyried defnyddio unrhyw Dyst Arbenigol o fewn cymhwyster dysgwr.

Er enghraifft, gallai gofynion gorfodol i fod yn Dyst Arbenigol gynnwys y canlynol:

- Meddu ar arbenigedd a chymhwysedd galwedigaethol cyfredol a chredadwy yn y meysydd lle y gallai fod angen tystiolaeth
- Meddu ar yr un arbenigedd galwedigaethol â'r Aseswr/Hyfforddwr
- Wedi cofrestru gyda chorff rheoleiddio proffesiynol
- Meddu ar gymhwyster ar asesu perfformiad yn y gweithle
- Gweithio'n broffesiynol mewn rôl sy'n cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd pobl eraill
- Meddu ar wybodaeth ymarferol am unedau'r cymhwyster y mae eu harbenigedd yn seiliedig arnynt.

O safbwynt sicrhau ansawdd mewnol, rhaid i bob Aseswr/Hyfforddwr sicrhau bod ganddynt dystiolaeth sy'n cadarnhau bod unrhyw Dyst Arbenigol a ddefnyddir i ddarparu tystiolaeth yn bodloni'r holl ofynion angenrheidiol. Bydd y dystiolaeth hon yn cynnwys enw'r Tyst Arbenigol, manylion cyswllt, trosolwg o'i rôl a gallai hefyd gynnwys adolygiad o'u disgrifiad swydd, CV a/neu gofnodion DPP.

Rhaid i'r wybodaeth sy'n cadarnhau bod y Tyst Arbenigol yn bodloni'r gofynion fod ar gael i'w hadolygu gan y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (SSAM) a'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (SSAA) ar gais. (Gweler Atodiad 1).

## 4 Cwmpas rôl Tystiolaeth Tyst Arbenigol yn y broses asesu

Mae'n bwysig cofio nad yw defnyddio Tyst Arbenigol yn cael gwared ar yr angen i Aseswr/Hyfforddwr cymwys gael ei neilltuo i ddysgwr. Yn y rhan fwyaf o gymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd, mae'r brif ffynhonnell o dystiolaeth i gadarnhau cymhwysedd dysgwyr yn ymarferol yn cael ei chynhyrchu drwy arsylwadau Aseswr/Hyfforddwr a wneir yn y gweithle.

Gellir defnyddio tystiolaeth Tyst Arbenigol yn lle arsylwi ymarfer, ond yr Aseswr/Hyfforddwr ddylai benderfynu a chytuno ar hyn a'i drefnu yn unol â gofynion y cymhwyster. Gellir defnyddio Tyst Arbenigol i gasglu cymhwysedd cyson a/neu 'lenwi bylchau' o fewn y dystiolaeth asesu na all yr Aseswr/Hyfforddwr ei chael. Er enghraifft, efallai y bydd angen tystiolaeth Tyst Arbenigol lle nad yw'n bosibl i Aseswr/Hyfforddwyr arsylwi ar weithgaredd yn y gweithle am resymau a allai gynnwys mynediad cyfyngedig, risgiau iechyd a diogelwch, preifatrwydd a materion sy'n ymwneud â chyfrinachedd a diogelu.

Rhaid cofio hefyd bod amrywiaeth o gyfleoedd asesu eraill i gasglu tystiolaeth ar gael yn y rhan fwyaf o gymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd h.y. defnyddio dysgu blaenorol, cyfrifon myfyriol a thrafodaethau proffesiynol. Fodd bynnag, ar yr un pryd â'r rhain, mae tystiolaeth Tyst Arbenigol gadarn hefyd yn cefnogi ac yn galluogi Aseswr/Hyfforddwyr i lunio barn wybodus, diogel, dibynadwy a chyson am gymhwysedd eu dysgwyr cyn iddynt gadarnhau y gellir dyfarnu uned neu gymhwyster iddynt.

(Darparwyd enghraifft o ffurflen Tystiolaeth Tyst Arbenigol – gweler Atodiad 2)

Cyn i'r Tyst Arbenigol gael ei neilltuo i'r dysgwr, mae'n bwysig bod yr Aseswr/Hyfforddwr wedi gwirio bod tystiolaeth Tyst Arbenigol yn fath dilys o dystiolaeth ar gyfer y Deiliant Dysgu/Meini Prawf Asesu, neu'r maes cymhwyster sy'n cael ei gadarnhau gan y Tyst Arbenigol.

## 5 Sut i ddod yn Dyst Arbenigol a chefnogaeth gysylltiedig

Fel rhan o'r gwaith cynllunio i fodloni strategaeth asesu cymhwyster, lle mae'r Aseswr/Hyfforddwr yn nodi'r angen i ddefnyddio Tyst Arbenigol, mae'n bwysig iawn nid yn unig bod Tystion Arbenigol posibl yn cael eu nodi a'u cefnogi (ac mae'n ddigon posibl y gall y dysgwr helpu yn y broses hon), ond hefyd bod y Tyst Arbenigol yn cael ei sefydlu yn ei rôl. Gall hyn gynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb neu rithiol a ddarperir gan yr Aseswr/Hyfforddwr ar ddechrau cymhwyster y dysgwr.





Gellir darparu deunyddiau cefnogi hefyd i alluogi'r Tyst Arbenigol nid yn unig i gadarnhau ei fod yn bodloni gofynion y cymhwyster, ond hefyd i sicrhau ei fod yn deall yr hyn a ddisgwylir yn y rôl a sut y gall gyfrannu at y broses asesu. Y nod wrth ddarparu'r deunyddiau hyn yw sicrhau o'r dechrau bod y Tyst Arbenigol yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau'n llawn ac y gall gyfeirio at ganllawiau clir os oes angen.

## 6 Ystyriaethau arfer gorau

Efallai y bydd Aseswyr/Hyfforddwyr yn ei chael yn ddefnyddiol ystyried y cwestiynau canlynol, neu rai ohonynt, fel rhan o'u prosesau cynllunio ac asesu Tystion Arbenigol.

- A yw Tyst Arbenigol posibl wedi derbyn digon o wybodaeth am y rôl i'w gefnogi? Bydd y wybodaeth hanfodol hon yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydynt yn barod i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn dros ddysgwyr
- A yw'r Tyst Arbenigol yn gwbl gyfarwydd â'r unedau cymhwyster perthnasol y mae angen eu tystiolaeth tyst arbenigol ar eu cyfer, ac a oes ganddo gopi ohonynt?
- A yw'r Tyst Arbenigol yn gwybod enw a manylion cyswllt ei ddysgwyr?
- A oes gan y Tyst Arbenigol fanylion cyswllt yr Aseswr/Hyfforddwr fel y gall gael cefnogaeth bellach?
- A yw'r Tyst Arbenigol wedi cael ffurflen tyst arbenigol (yn ddigidol, yn ddelfrydol) y mae'n ei deall yn llawn ac y gall ei chwblhau ar gyfer y dysgwyr (o fewn amserlen y cytunwyd arni) a gwybodaeth ynglŷn â sut i'w hanfon at yr Aseswr/Hyfforddwr?
- Os dilysu a llofnodi/dyddio cyfrif a ddarperir gan y dysgwyr yw rôl y Tyst Arbenigol, pa sylwebaeth ychwanegol, os o gwbl, y gallai fod ei hangen i sicrhau dilysrwydd, digonolrwydd a dibynadwyedd y dystiolaeth a ddarparwyd?
- A yw'r Tyst Arbenigol wedi cael enghraifft o dystiolaeth tyst arbenigol fel y gall weld a darllen beth yw arfer gorau a'r math(au) o dystiolaeth y mae angen iddo eu cynhyrchu ar gyfer y dysgwyr?
- A oes terfyn geiriau wedi'i osod ar gyfer y dystiolaeth tyst arbenigol ysgrifenedig i gefnogi'r ffocws a'r eglurder mewn dystiolaeth ysgrifenedig?
- Sawl enghraifft o ymarfer dysgwyr y mae angen eu darparu a thros ba gyfnod o amser?
- A yw'r Tyst Arbenigol yn gwybod y gall dynnu sylw'r Aseswr/Hyfforddwr at unrhyw bryderon ynglŷn â'r dysgwyr?
- A yw'r Tyst Arbenigol yn deall mai'r Aseswr/Hyfforddwr sy'n bennaf cyfrifol am reoli cynnydd asesu cymhwyster y dysgwyr, am asesu cymhwysedd cysylltiedig ac am wneud y penderfyniadau asesu?
- Pa adborth y mae'r Aseswr/Hyfforddwr yn ei roi i'r Tyst Arbenigol mewn perthynas ag ansawdd y dystiolaeth tyst arbenigol a ddarperir ac a fydd yr adborth hwn ar gael i'r dysgwyr?

- A ellir defnyddio technoleg i gynhyrchu tystiolaeth tyst arbenigol, neu a oes rhaid ei hysgrifennu â llaw bob amser?
- A yw llofnodion electronig yn dderbyniol os caiff tystiolaeth tyst arbenigol ei chyflwyno'n ddigidol?
- Ydych chi wedi cynhyrchu 'Canllaw i fod yn Dyst Arbenigol' y ganolfan y gellir ei rhoi i gyflogwr/rheolwr/goruchwyliwr sy'n ystyried y rôl hon?

## 7 Technoleg o bell

Ni ddylid defnyddio technoleg sain a fideo o dan unrhyw amgylchiadau os yw'n peryglu preifatrwydd, urddas neu gyfrinachedd unrhyw unigolyn. Fodd bynnag, os oes mesurau diogelu effeithiol ar waith, gall technoleg sain a fideo symleiddio'r broses o gasglu a chyflenwi'r math hwn o dystiolaeth, yn enwedig mewn achosion lle mae'r Aseswr/Hyfforddwr yn ceisio eglurhad pellach am agweddau allweddol ar y dystiolaeth a ddarparwyd cyn cadarnhau penderfyniad asesu. Mae technoleg hefyd yn cynnig math unigryw o agosrwydd a hygyrchedd a all helpu i sefydlu a chynnal cydweithrediad agosach rhwng y dysgwr, yr Aseswr/Hyfforddwr a'r Tyst Arbenigol. Gall hyn hefyd helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer rhagor o dystiolaeth.

Fel arall, gall y Tyst Arbenigol ddarparu tystiolaeth ar berfformiad dysgwr drwy drafodaeth broffesiynol/cyfweliad gyda'r Aseswr/Hyfforddwr, a fyddai'n gweithredu fel ysgrifennydd, gan gofnodi'r wybodaeth a ddarperir. Unwaith eto, pe bai'r dull hwn yn cael ei ystyried byddai angen ei gynllunio'n dda ar y dechrau fel rhan o'r strategaeth asesu ar gyfer cymhwyster y dysgwr a byddai angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb.

Mewn rhai achosion, gall defnyddio technoleg olygu bod y dystiolaeth yn haws ei threfnu, yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol a'r gofynion sydd eisoes ar y Tyst Arbenigol.

Os bydd unrhyw drafodaethau uniongyrchol neu ddilynol gyda'r Tyst Arbenigol a/neu'r dysgwr yn cael eu cynnal a'u cofnodi, yna fel y soniwyd eisoes, rhaid i hyn gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol.



## 8 Barnu tystiolaeth a ddarparwyd gan Dyst Arbenigol

Wrth farnu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan dyst arbenigol, rhaid i Aseswr/Hyfforddwr sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn bodloni 'rheolau tystiolaeth' neu DADCD. Mae hyn yn golygu bod y dystiolaeth yn:

- **Dilys** – a yw'r dystiolaeth yn uniongyrchol berthnasol i feini prawf asesu'r cymhwyster/uned y mae'r dysgwr yn cael ei asesu yn eu herbyn?
- **Awthentig** – ei bod wedi'i hysgrifennu/cwblhau gan y Tyst Arbenigol sy'n bodloni'r 'gofynion i fod yn Dyst Arbenigol' ac os yw'r dysgwr wedi ysgrifennu'r dystiolaeth y mae'n rhaid i Dyst Arbenigol ei chydlofnodi wedyn, mae'r Tyst Arbenigol wedi cadarnhau gyda'i sylwebaeth ei hun ei fod wedi gweld y dystiolaeth o ymarfer a ddarparwyd gan y dysgwr hwnnw.
- **Dibynadwy** – a yw'r dystiolaeth yn dangos cysondeb yn ymarfer y dysgwr?
- **Cyfredol** – a yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod y dysgwr yn gallu bodloni gofynion y cymhwyster/uned ar adeg yr asesiad?
- **Digonol** – a oes digon o dystiolaeth o gymhwysedd yn ymarfer y dysgwr i ganiatáu i'r Aseswr/Hyfforddwr ddod i farn wybodus.



## 9 Sicrhau Ansawdd

Yn unol â holl ofynion y cymhwyster, sicrheir ansawdd tystiolaeth tyst arbenigol yn fewnol gyda phwyslais ar sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion **DADCD** a restrir uchod. Gan ddefnyddio gweithgareddau safoni, bydd y SSAM yn defnyddio amrywiol dechnegau samplu i sicrhau bod y broses a'r defnydd o dystiolaeth Tyst Arbenigol wedi'u dilyn yn gyson, a bod gofynion y Sefydliad/Corff Dyfarnu a strategaeth asesu cymwysterau wedi'u bodloni. Fel rhan o'u samplu, bydd SSAM yn cynllunio i gynnal trafodaethau gyda rhai Tystion Arbenigol i sicrhau a chadarnhau dilysrwydd, awthentigedd a dibynadwyedd eu tystiolaeth.

Pan fo'r defnydd o Dystion Arbenigol yn newydd neu lle mae nifer y tystion arbenigol a ddefnyddir yn cynyddu, yna dylid addasu gweithgareddau samplu'r SSAM yn unol â hynny i liniaru unrhyw risg bosibl. Gall hyn olygu y bydd yr SSAM **yn cynnal sampl cynnar o dystiolaethau'r Tyst Arbenigol ac yn rhoi adborth Aseswr/Hyfforddwr**, yn cynnal trafodaeth â'r Tyst Arbenigol neu'n cynyddu faint o samplu y maent yn ei wneud. Os nad yw ansawdd tystiolaeth tyst arbenigol yn bodloni'r safon ddisgwyliedig, yna byddai'r SSAM yn trefnu i gamau adferol gael eu cymryd i wella'r arfer.





## 10 Crynodeb

Mae angen cynllunio recriwtio a defnyddio Tyst Arbenigol yn ofalus i sicrhau bod pawb yn deall y pwrpas, pa fanylion/tystiolaeth y mae angen eu darparu mewn tystiolaeth tyst arbenigol, a sut y bydd hyn yn cyfrannu at y broses asesu gyffredinol o fewn cymhwyster dysgwr.

Argymhellir bod y canolfannau'n cynhyrchu deunyddiau cefnogi, gan gynnwys canllaw manwl o rôl y Tyst Arbenigol a ffurflenni a fydd yn helpu'r Tyst Arbenigol i wybod yn union pa wybodaeth ysgrifenedig a thystiolaeth y mae'n ofynnol iddo eu darparu. Heb y gefnogaeth hon, efallai na fydd ansawdd a chynnwys y dystiolaeth tyst arbenigol yn bodloni'r gofynion ac er y gallai'r wybodaeth a ddarperir fod yn ddefnyddiol, efallai na fydd yn berthnasol iawn, os o gwbl, i'r hyn sydd ei angen at ddibenion asesu.

Yn olaf, mae'r llwyddiant o ran cynhyrchu tystiolaeth tyst arbenigol o ansawdd uchel yn dibynnu ar bartneriaeth waith agos rhwng yr Aseswr/Hyfforddwr, y dysgwr, a'r Tyst Arbenigol gyda pharamedrau a gofynion clir wedi'u nodi ar gyfer y rôl. Er mwyn llwyddo yn y cymhwyster mae cyfathrebu yn allweddol i sicrhau bod ansawdd y dystiolaeth a ddarperir gan Dyst Arbenigol yn adlewyrchiad cywir, gwirioneddol a chyson o alluoedd dysgwyr yn eu hymarfer. Bydd hyn yn galluogi'r Aseswr/Hyfforddwr i driongli'r dystiolaeth hon ochr yn ochr â'i ffynonellau ei hun a ffynonellau eraill i gadarnhau cymhwysedd y dysgwr.

## Atodiad 1 – Enghraifft o'r Gofynion i fod yn Dyst Arbenigol

<b>Enw'r Tyst Arbenigol</b>	
<b>Rôl swydd/trosolwg</b>	
<b>Enw'r lleoliad gwaith/sefydliad:</b>	

<b>Cymhwyster/cymwysterau lle mae angen Tystiolaeth Tyst Arbenigol:</b>	
Gallwch barhau ar ddalen ar wahân os oes angen	
<b>Fel Tyst Arbenigol gallaf gadarnhau'r canlynol:</b>	<b>Ticiwch (fel y bo'n briodol)</b>
Mae gennyf wybodaeth ddigonol am y cymhwyster/unedau y mae fy arbenigedd yn seiliedig arnynt	
Rwyf yn gymwys yn alwedigaethol yn y maes arbenigedd rwyf yn darparu tystiolaeth dyst arbenigol ar ei gyfer	
Rwyf yn meddu NAILL AI ar gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle NEU mae gennyf swydd broffesiynol sy'n cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff yn eu maes arbenigedd.	

### **Datganiad Tyst Arbenigol:**

Gallaf gadarnhau fel Tyst Arbenigol fy mod yn bodloni'r holl feini prawf uchod.

<b>Llofnod Tyst Arbenigol</b>		<b>Dyddiad</b>	DD/MM/BB
-------------------------------	--	----------------	----------

**Datganiad Aseswr/Hyfforddwr:**

Mae'r Aseswr/Hyfforddwr wedi dilysu'r gofynion uchod drwy drafodaeth gyda'r Tyst Arbenigol a lle bo angen wedi gweld eu cofnodion CV/DPP, sy'n cadarnhau eu cymhwysedd/arbenigedd galwedigaethol.

<b>Llofnod yr Aseswr / Hyfforddwr</b>		<b>Dyddiad</b>	DD/MM/BB
<b>Enw'r Aseswr / Hyfforddwr</b>			

## Atodiad 2 – Enghraifft o Ffurflen Tystiolaeth Tyst Arbenigol

Enw'r Tyst Arbenigol			
Rôl/teitl swydd			
Perthynas â'r dysgwr			
Enw'r dysgwr		Rhif y dysgwr	
Tystiolaeth wedi'i chwblhau gan			

Yn ôl disgrisiwn yr Aseswr/Hyfforddwr:

- Gellid nodi nifer yr enghreifftiau o ymarfer a thros gyfnod penodol o amser os/lle bo angen
- Gellid cynnwys cyfrif geiriau isaf ac uchaf ar gyfer y dystiolaeth er mwyn sicrhau ffocws ac eglurder wrth ei chwblhau

Teitl y cymhwyster		Rhif y cymhwyster	
Teitl yr uned		Rhif yr uned	
Uned/Meini Prawf Asesu	Tystiolaeth: yn cynnwys enghreifftiau o ymarfer dysgwyr i ddangos cysondeb		
	Gallwch barhau ar ddalen ar wahân os oes angen		
Llofnod Tyst Arbenigol		Dyddiad	DD/MM/BB
Llofnod y dysgwr		Dyddiad	DD/MM/BB

Rwy'n cytuno fel y Tyst Arbenigol fod y datganiad uchod, a ysgrifennwyd gan y dysgwr a enwir, yn adlewyrchiad cywir o'r digwyddiadau mewn perthynas â'u hymarfer.

Sylwadau pellach gan y Tyst Arbenigol

Gallwch barhau ar ddalen ar wahân os oes angen

<b>Llofnod Tyst Arbenigol</b>		<b>Dyddiad</b>	DD/MM/BB
-----------------------------------	--	----------------	----------